

Polisi Cyhoeddiadau Mynediad Agored Prifysgol Caerdydd

Cyflwyniad

Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod y manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol sy'n gysylltiedig â mynediad agored at ymchwil a ariennir yn gyhoeddus.

Mae Mynediad Agored yn fodel cyhoeddi sy'n caniatáu i erthyglau sydd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid fod ar gael yn rhwydd i unrhyw un sydd â mynediad at y rhyngwyd, yn hytrach na'u cyfyngu i ddarllenwyr sydd wedi tanysgrifio yn unig. Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod gwaith ymchwil academaidd yn agored i bawb, a chefnogir hyn yn gryf gan Lywodraeth y DU fel sbardun ar gyfer adfywiad economaidd. Mae **RCUK** a chyrrff ariannu eraill megis **Ymddiriedolaeth Wellcome** a **Chronfa Mynediad Agored Elusennau (COAF)** yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid eu grantiau sicrhau bod pob allbwn o'u grantiau ar gael drwy Mynediad Agored. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn mandadu Mynediad Agored ar gyfer allbynnau a ariennir gan **Horizon 2020** ac o 2016, ni fydd HEFCE yn caniatáu ond i erthyglau mewn cyfnodolion a thrafodion cynadleddau a gyhoeddir sy'n Fynediad Agored gael eu cyflwyno i'r **REF ar ôl 2014**, gydag eithriadau cyfyngedig iawn.

Mae storfa sefydliadol Prifysgol Caerdydd, ORCA, yn arddangos cyhoeddiadau ymchwil staff a myfyrwyr, ac yn gwneud allbynnau Mynediad Agored Gwyrdd ac Aur¹ ar gael i'r cyhoedd ar-lein. Mae Prifysgol Caerdydd yn ei gwneud yn ofynnol ychwanegu testun llawn pob un o gyhoeddiadau ymchwil Prifysgol Caerdydd at ORCA, ni waeth p'un a ydynt yn Wyrdd neu'n Aur.

Polisi Cyhoeddiadau Mynediad Agored Prifysgol Caerdydd

Mae Polisi Cyhoeddiadau Mynediad Agored Prifysgol Caerdydd yn gwneud y canlynol yn ofynnol, o **1 Tachwedd 2017**:

1. Mae angen i awduron gofnodi manylion llyfryddol yr holl allbynnau ymchwil yn storfa sefydliadol y Brifysgol, erbyn y dyddiad cyhoeddi fan bellaf.
2. O ran erthyglau mewn cyfnodolion a thrafodion cynadleddau yn unig, mae'r awduron yn ychwanegu testun llawn fersiwn derfynol yr awdur, a adolygwyd gan gymheiriaid ("fersiwn ôl-argraffu"), at y storfa sefydliadol tri mis ar ôl ei derbyn fan bellaf. Lle mae caniatâd hawlfraint cyhoeddwr yn caniatáu ac nad oes unrhyw gyfyngiad o ran cyfrinachedd neu fasnach, bydd y fersiynau hyn yn rhai Mynediad Agored. Gall tîm ORCA a Llyfrgellwyr Pwnc roi cyngor ar ganiatâd hawlfraint (gweler paragraff 21).
 - a. Bydd papurau wedi'u hunan-archifo (Gwyrdd) eisoes yn cynnwys blaenddalen gyda'r holl fanylion llyfryddol.

¹ Mae Mynediad Agored Gwyrdd yn cyfeirio at hunan-archifo testun ar ôl ei argraffu o allbwn yn y storfa sefydliadol. Mae Mynediad Agored Aur yn golygu y bydd angen talu Cost Prosesu Erthygl i'r cyhoeddwr i wneud y fersiwn pdf derfynol a gyhoeddir ar gael i bawb.

- b. Ni chaiff allbynnau sy'n destun embargo eu rhyddhau yn gyhoeddus nes y bydd y cyfnod embargo wedi dod i ben (er y byddant yn parhau i fod yn gymwys i'w cyflwyno i'r REF o fewn cyfnod yr embargo).
3. Cyfrifoldeb yr awduron yw gwirio cywirdeb eu cyhoeddiadau yn y Porth Ymchwil.
4. Anogir awduron yn gryf i ychwanegu testun llawn yr holl gyhoeddiadau eraill (gan gynnwys ysgrifau) at y storfa sefydliadol *pan fo caniatâd hawlfraint cyhoeddwy yn caniatáu*. Bydd hyn yn galluogi'r Brifysgol i hawlio credydau yn y datganiadau Amgylchedd ar gyfer hyrwyddo Polisi Mynediad Agored.
5. Rhaid i awduron ddefnyddio'r ymlyniad sefydliadol safonol "Prifysgol Caerdydd" ar gyfer yr holl allbynnau ymchwil er mwyn sicrhau cysylltiad cyson â'r Brifysgol. Argymhellir yn gryf eich bod yn defnyddio dulliau nodi awduron safonol megis ORCID (ac mae'n ofynnol ar gyfer rhai arianwyr).
6. Rhaid i awduron gydnabod ffynhonnell y cyllid grant sy'n gysylltiedig ag allbwn ymchwil. Mae hyn yn amod arianwyr grantiau.
7. Rhaid i awduron gydymffurfio â pholisïau'r arianwyr mewn perthynas â Mynediad Agored, gan gynnwys gwybodaeth ymchwil a rheoli data.
8. Mae'r polisi yn berthnasol i'r holl ymchwilwyr, gan gynnwys myfyrwyr PhD. Mae'n ofynnol i'r rheini a ariennir gan RCUK wneud eu herthyglau mewn cyfnodolion a thrafodion cynadleddau yn Fynediad Agored trwy ddilyn naill ai y llwybr Gwyrdd neu'r llwybr Aur o fewn 12 mis ar ôl eu derbyn.
9. Mae rheoliadau'r Brifysgol eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i theses ymchwil gael eu hychwanegu at ORCA pan fyddant yn cael eu dyfarnu (oni bai eu bod yn ddarostyngedig i waharddiad dros dro ar fynediad neu wedi eu heithrio am resymau hawlfraint).
10. Sefydlwyd Gwasg Prifysgol Caerdydd er mwyn cynnig mynediad ar-lein at allbynnau'r Brifysgol gan ddefnyddio model Mynediad Agored. Mae cyflwyniadau i'r wasg yn cael eu rheoli gan Fyrdau Golygyddol dan oruchwyliaeth Bwrdd Golygyddol Gwasg y Brifysgol.

Sail resymegol y polisi

11. Sicrhau bod gofynion arianwyr ymchwil i wneud allbynnau ymchwil ar gael i bawb ar-lein yn cael eu bodloni.
12. Sicrhau bod yr holl erthyglau mewn cyfnodolion a thrafodion cynadleddau â'r potensial i gael eu cyflwyno i'r REF.
13. Codi proffil ymchwil a wneir gan Brifysgol Caerdydd.
14. Gwella cyfleoedd i awduron gael cyhoeddi eu gwaith.
15. Galluogi arddangosfeydd cyson o fesurau bibliometrig sy'n gysylltiedig ag allbynnau ymchwil megis y cyfrif dyfyniadau a ffactorau traweffaith yr erthygl.

Manteision

16. Bydd ychwanegu allbynnau ymchwil at y storfa sefydliadol yn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu, eu storio, ac ar gael yn y tymor hir.

17. Bydd cyhoeddiadau, data a dolenni ar gael drwy dudalennau gwe'r Ysgol a thudalennau gwe personol.
18. Bydd ymchwilwyr yn cael eu cefnogi wrth lanlwytho gwybodaeth berthnasol, ofynnol i System Allbynnau Ymchwil gyson RCUK, yn seiliedig ar ddull Researchfish (sy'n ofynnol ar gyfer cyllid yn y dyfodol).
19. Bydd allbynnau a ychwanegir at storfa sefydliadol yn "agored" i Google a pheiriannau chwilio eraill, gan gynyddu gwelededd a'r cyfrif dyfyniadau.
20. Mae gwneud allbynnau'n Fynediad Agored yn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth a gwyddoniaeth agored. Bydd sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, busnesau bach a chanolig, a busnesau nad ydynt yn tanysgrifio i wybodaeth mewn cyfnodolion yn gallu cael mynediad at allbynnau'r Brifysgol yn rhydd ar y rhyngwrdd, gan arddangos ymrwymiad Caerdydd i gefnogi'r economi yng Nghymru a thu hwnt.

Cyngor ac arweiniad

21. Gall ymchwilwyr ychwanegu eu cyhoeddiadau at y storfa sefydliadol drwy'r fewnwrdd. Mae Llyfrgell y Brifysgol yn rhoi cyngor a chymorth i helpu ymchwilwyr gyda'u cyhoeddiadau. Cysylltwch â'ch Llyfrgellydd Pwnc neu ORCA@cardiff.ac.uk am ragor o wybodaeth.
22. Gall llyfrgellwyr pwnc roi cyngor hefyd o ran cydymffurfio â chyfnodau hawlfraint ac embargo.
23. Mae gwefan SHERPA Romeo <http://www.sherpa.ac.uk/romeo/> yn rhoi manylion polisiau cyhoeddwr gwahanol o ran caniatâd hawlfraint, ac mae SHERPA FACT <http://www.sherpa.ac.uk/fact/> yn offeryn i helpu awduron i ganfod a yw cyfnodolyn yn cydymffurfio â pholisiau Mynediad Agored RCUK neu Ymddiriedolaeth Wellcome.
24. Darperir cymorth ar gyfer staff academiaidd ynghylch cyngor ar ofynion y cyllidwr a thalu costau Mynediad Agored Aur drwy openaccess@cardiff.ac.uk.
25. Ceir rhagor o wybodaeth, gan gynnwys canllawiau cam wrth gam ynghylch cydymffurfio â'r REF ar gyfer pob Ysgol a chydymffurfiaeth drwy'r llwybrau Gwyrdd ac Aur, ar y fewnwrdd staff a myfyrwyr drwy chwilio am Fynediad Agored.
26. Mae offeryn cydymffurfio rhyngweithiol Mynediad Agored i helpu staff i nodi'r opsiynau a'r gofynion Mynediad Agored ar gyfer eu hallbynnau ymchwil ar gael ar y fewnwrdd hefyd.
27. Mae'r polisi hwn yn rhan o God Ymarfer Gonestrwydd Ymchwil y Brifysgol, sydd ar gael ar y fewnwrdd.

Prifysgol Caerdydd

19 Mai 2014

Diwygiwyd ar 16 Gorffennaf 2014

Diweddarwyd ar 2 Rhagfyr 2014

Diwygiwyd ar 7 Gorffennaf 2017

Fersiwn ddiwygiedig wedi ei chymeradwyo gan y Senedd ar 25 Hydref 2017

